

*Canllawiau Cynllunio Atodol*

*Mabwysiadwyd  
Medi 2016*

# Gofynion Hamdden a Mannau Agored i Ddatblygiadau Newydd



*Cynllun Datblygu Lleol  
Sir Gaerfyrddin*

## **Cynnwys**

### **1.0 Rhagymadrodd**

- 1.1 Diben**
- 1.2 Cefndir**
- 1.3 Statws**

### **2.0 Y Cyd-destun**

- 2.1 Y Cyd-destun Cenedlaethol**
- 2.2 Y Cyd-destun Lleol**

### **3.0 Diffiniadau a mathau o fannau agored**

- 3.1 Cyflwyniad**
- 3.2 Meysydd Chwarae Cymru a Safon Sir Gaerfyrddin**
- 3.3 Cyfleusterau Chwaraeon Awyr Agored**
- 3.4 Ardaloedd Chwarae i Blant**

### **4.0 Y Dull Datblygu a'r Rhwymedigaethau Cynllunio**

- 4.1 Ffynonellau Canllawiau ar Ddylunio**
- 4.2 Darpariaeth ar-safle**
- 4.3 Darpariaeth oddi-ar-safle – Cyfraniadau gan Ddatblygwyr**
- 4.4 Rheoli a Chynnal a Chadw**

### **5.0 Cysylltiadau Allweddol**

**Atodiad 1: Y Deg Egwyddor ar gyfer Dylunio Mannau Chwarae**

**Atodiad 2: Atodlen o'r Costau Adeiladu a Chynnal a Chadw**

## **1.0 Rhagymadrodd**

### **1.1 Diben**

- 1.1.1 Cafodd y Canllawiau Cynllunio Atodol hyn eu paratoi i ymhelaethu ar bolisiâu a chynigion Cynllun Datblygu Lleol (CDLI) Mabwysiedig Sir Gaerfyrddin a'u cyfnerthu. Mae'n ceisio darparu mwy o eglurder ynglŷn â Gofynion Hamdden a Mannau Agored y Cyngor i Ddatblygiadau Newydd.
- 1.1.2 Cynhyrchwyd y Canllawiau Cynllunio Atodol hyn ar ôl mabwysiadu'r CDLI ac maent yn adlewyrchu Polisi Cynllunio Cenedlaethol. Amcan pennaf y canllawiau yw datblygu dealltwriaeth o'r gwahanol ddiffiniadau o fan agored yng nghyd-destun Sir Gaerfyrddin, yn ogystal ag egluro disgwyliadau'r Cyngor mewn perthynas â rhwymedigaethau cynllunio.
- 1.1.3 Er nad oes i Ganllawiau Cynllunio Atodol yr un statws â pholisiâu cynllun datblygu sydd wedi'i fabwysiadu, dylid nodi y gellir rhoi sylw iddynt fel ystyriaethau perthnasol wrth benderfynu ar geisiadau cynllunio.
- 1.1.4 Dylid cyfeirio hefyd at Ganllawiau Cynllunio Atodol eraill sydd wedi'u mabwysiadu gan y Cyngor yn cynnwys y canllawiau'n ymdrin â Rhwymedigaethau Cynllunio, a'r canllawiau sy'n cael eu datblygu ar Greu Ymdeimlad o Le a Dylunio a Chadwraeth Natur a Bioamrywiaeth sy'n arbennig o berthnasol i Fannau Agored.

### **1.2 Cefndir**

- 1.2.1 Bydd datblygiadau ychwanegol (yn enwedig tai) yn rhoi mwy o alwadau ar fannau agored sy'n bodoli'n barod, felly dylid sicrhau darpariaeth newydd yn ôl yr angen. Mae darparu mannau agored ychwanegol priodol yn cyd-fynd â phwyslais y Cynllun ar hwyluso lefel gynaliadwy o dwf yn y Sir gydol cyfnod y cynllun.
- 1.2.2 Mae i fannau agored y potensial i ddarparu manteision iechyd a lles a gallant hefyd helpu i liniaru achosion ac effeithiau newid hinsawdd. Gall mannau agored hefyd ddarparu lleoedd ar gyfer rhyngweithio cymdeithasol, gweithgareddau cymunedol a chyfleoedd chwarae. Yn y cyswllt hwn, mae amddiffyn a gwella'r ddarpariaeth yn ystyriaeth allweddol yn y CDLI.

### **1.3 Statws**

- 1.3.1 Roedd y Canllawiau Cynllunio Atodol yma yn destun i ymarferiad ymgynghori ffurfiol a chafodd ei gynnal mewn modd sy'n gyson â pholisiâu a gweithdrefnau perthnasol y Cyngor. Fel rhan o fabwysiadu'r canllawiau yma rhoddwyd ystyriaeth ddyledus i sylwadau ac ymatebion yn unol â gofynion gweithdrefnol y Cyngor.

## 2.0 Y Cyd-destun

### 2.1 Y Cyd-destun Cenedlaethol

#### **Polisi Cynllunio Cymru (Argraffiad 8, 2016)**

- 2.1.1 Mae Polisi Cynllunio Cymru yn nodi polisiau cynllunio defnydd tir Llywodraeth Cymru (LIC). Ei amcan canolog yw hyrwyddo a darparu fframwaith i ddatblygu cynaliadwy yng Nghymru ac mae'n egluro bod y system gynllunio yn rheoli'r ffordd y caiff tir ei ddatblygu a'i ddefnyddio er budd y cyhoedd, gan gyfrannu tuag at wireddu datblygu cynaliadwy.
- 2.1.2 Dywed Pennod 11 Twristiaeth, Chwaraeon a Hamdden fod chwaraeon a hamdden yn cyfrannu at ansawdd bywyd a bod LIC yn cefnogi datblygu chwaraeon a hamdden, a'r amrywiaeth eang o weithgareddau hamdden sy'n annog gweithgarwch corfforol. Mae prif amcanion cynllunio LIC yn y cyswllt hwn yn cynnwys hybu cynhwysiant cymdeithasol, gwell iechyd a lles drwy sicrhau mynediad hwylus i bawb, yn cynnwys plant a phobl ifanc, yr henoed a'r rhai sydd ag anableddau, i'r amgylchedd naturiol ac at gyfleusterau o ansawdd a dyluniad da, ac i fannau agored.
- 2.1.3 O ran cynlluniau datblygu dylent gynnwys polisiau clir ar ddarparu, diogelu a gwella cyfleusterau twristiaeth, chwaraeon a hamdden. Dylent osod safonau ar gyfer y ddarpariaeth, fel bod modd nodi diffygion lleol a'u hunioni drwy'r broses gynllunio. Dylent hefyd nodi polisiau ar osgoi neu ddatrys unrhyw wrthdaro rhwng gwahanol weithgareddau.
- 2.1.4 Mae Polisi Cynllunio Cymru hefyd yn rhoi canllawiau rheoli datblygu i Awdurdodau Cynllunio Lleol o ran penderfynu ar geisiadau cynllunio. Dylid ystyried effaith cynigion ar yr amgylchedd a'r gymuned leol. Gallai fod cyfiawnhad i Awdurdod Cynllunio Lleol geisio Cytundebau Cynllunio Adran 106 er mwyn helpu i sicrhau bod y safonau darpariaeth a nodir mewn cynlluniau datblygu yn cael ei gwireddu ac i gyfrannu at y gost o gynnal a chadw adnoddau a manau agored diogel a deniadol. Hefyd, mae angen ystyried effaith chwaraeon a hamdden ar ddefnyddiau cyfagos o safbwynt sŵn, allyriadau golau, cynhyrchu traffig ac, yn achos datblygiadau mwy, rhwyddineb mynediad a diogelwch trigolion, defnyddwyr a'r cyhoedd.

#### **Nodyn Cynllunio Technegol 16 (TAN 16) Polisi Cynllunio Cymru Ionawr 2009**

- 2.1.5 Mae TAN 16 yn darparu canllawiau technegol i ategu'r polisi ym Mholisi Cynllunio Cymru. Mae'n rhoi cyngor ynglŷn â rôl y system gynllunio i wneud darpariaeth ar gyfer cyfleusterau chwaraeon a hamdden a manau agored anffurfiol, yn ogystal â diogelu'r cyfleusterau a'r manau agored sy'n bodoli'n barod mewn ardaloedd trefol a gwledig yng Nghymru. Dywed ei bod yn bwysig cynnal asesiadau lleol o'r angen ac archwiliadau o'r ddarpariaeth bresennol. Mae asesiadau o'r fath, gyda'i gilydd, yn llunio Aseiad Mannau Agored y dylid ei ddefnyddio, ymysg pethau eraill, fel sail i baratoi, monitro ac adolygu polisiau CDLI.



- 2.1.6 Nid yw polisi cenedlaethol yn rhagnodi safonau penodol i'r ddarpariaeth. Yn hytrach, dylai'r safonau gael eu seilio ar ganlyniadau proses yr Asesiad Mannau Agored a dywedir ei bod yn debygol y bydd patrymau gwahanol o ddarpariaeth hamdden a galw am y ddarpariaeth mewn ardaloedd trefol a gwledig. Dylai polisiâu clir ac effeithiol, yn cael eu gweithredu'n dda, ar chwaraeon, hamdden a manau agored roi sicrwydd i ddatblygwyr a'r cyhoedd ynghŷn â'r math o ddatblygiad a gaiff ei ganiatáu mewn lleoliad penodol.
- 2.1.7 Dylai'r safonau o ran darpariaeth hamdden a manau agored newydd eu seilio ar dystiolaeth gadarn yn deillio o'r Asesiad Mannau Agored, lle mae ar gael. Dylid anelu at sicrhau mynediad lleol hawdd i bawb at gyfleusterau hamdden ffurfiol ac anffurfiol a manau agored, a hynny drwy ddull ar wahân i'r car. Wrth nodi polisiâu sy'n cynnwys safonau ar ddarparu cyfleusterau hamdden a manau agored newydd, bydd yn ddymunol nodi maint derbyniol lleiaf mathau penodol o ddarpariaeth. Mae TAN 16 hefyd yn rhoi canllawiau ar reoli datblygu, gan drafod materion fel dylunio, sŵn a hygyrchedd ynghyd â materion fel llifoleuadau. Nodir pwysigrwydd rheoli a chynnal a chadw cyfleusterau, a rhoddir cyngor ar ddefnyddio amodau a rhwymedigaethau cynllunio. Dylid defnyddio polisiâu'r CDLI i ddarparu'r fframwaith y caiff y rhwymedigaethau cynllunio eu ceisio oddi mewn iddo.

### **Meysydd Chwarae Cymru: Cynllunio a Dylunio ar gyfer Chwaraeon a Chwarae yn yr Awyr Agored (2008)**

- 2.1.8 Mae Fields in Trust (FIT) (Meysydd Chwarae Cymru), a arferai gael ei alw'n Gymdeithas Meysydd Chwarae Genedlaethol (NPFA), wedi paratoi 'Safonau Meincnod' ar gyfer chwaraeon a chwarae yn yr awyr agored i ddisodli'r "Safon Chwe Erw". Bwriadwyd y rhain i helpu awdurdodau i lunio safonau darpariaeth lleol, ac ar gyfer eraill sydd â diddordeb mewn darparu a diogelu manau ar gyfer chwaraeon, hamdden a chwarae.
- 2.1.9 Mae'r 'Safonau Meincnod' newydd yn argymhell y dylai, drwyddi draw, fod 1.2ha o dir ar gyfer caeau chwarae fesul 1,000 o boblogaeth, gydag amrywiadau yn yr argymhellion ar gyfer ardaloedd trefol a gwledig. Maent hefyd yn argymhell y dylai fod 1.6ha o dir ar gyfer yr holl chwaraeon awyr agored fesul 1,000 o boblogaeth, eto gyda gwahaniaethau trefol a gwledig. Mae 'Safonau Meincnod' FIT yn cydnabod y bydd awdurdodau lleol efallai am bennu eu safonau eu hunain gan ddefnyddio dulliau asesu eraill, ond maent yn argymhell darparu 0.25ha o le chwarae awyr agored i blant fesul 1,000 o boblogaeth ar gyfer 'Gofod Chwarae Dynodedig â Chyfarpar', 0.55ha ar gyfer 'Gofod Chwarae Anffurfiol' a 0.80ha ar gyfer 'Gofod Chwarae i Blant'. Mae'r ddogfen hefyd yn rhoi arweiniad ar gynllunio a dylunio, dylunio cyfleusterau chwarae a chwaraeon awyr agored a diogelu cyfleusterau i'r dyfodol. O safbwynt cymhwyso'r safonau yng nghyd-destun Sir Gaerfyrddin, dylid cyfeirio at Adran 2.2 (Y Cyd-destun Lleol).

## **Pennod 2, Adran 11 o'r Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru)**

- 2.1.10 Mae'r uchod yn rhoi dyletswydd statudol ar Awdurdodau Lleol ar draws Cymru ynghyd a Chyfleoedd Chwarae. Mae Mater C o'r ddyletswydd statudol yn nodi dylai'r Awdurdod Lleol cydnabod fod pob gwagle agored yn hygyrch, ac a photensial i fod yn ardaloedd pwysig lle all plant chwarae, mynd trwyddo er mwyn cyrraedd ardaloedd chwarae.

### **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015**

- 2.1.11 Cafodd Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol Gydsyniad Brenhinol ym mis Ebrill 2015. Nod trosfwaol yn y Ddeddf yw ei gwneud yn ofynnol i'r holl gyrff cyhoeddus yng Nghymru sy'n ddarostyngedig i'r Ddeddf i weithio mewn ffordd sy'n gwella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol er mwyn helpu i greu Cymru 'rydyn ni am fwy ynddi yn awr ac yn y dyfodol'. Mae yna saith gôl llesiant ac ynghylch yr Canllawiau Cynllunio Atodol yma gellir nodi : "Cymru'n lachach" a "Cymru o Gymunedau Cydlynus".

## **2.2 Y Cyd-destun Lleol**

### **CDLI Sir Gaerfyrddin – Mabwysiadwyd Rhagfyr 2014**

- 2.2.1 Mae CDLI Mabwysiedig Sir Gaerfyrddin (Rhagfyr 2014) yn darparu'r fframwaith ar gyfer yr holl ddatblygu yn y Sir i'r dyfodol tan 2021 (ar wahân i Barc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog). Y cynllun fydd y sylfaen ar gyfer cyfleoedd buddsoddi a rhaglenni gwella seilwaith i'r dyfodol (a bydd yn arweiniad iddynt). Wrth benderfynu ar unrhyw gynigion neu geisiadau cynllunio, bydd y Cyngor yn seilio'i benderfyniad ar bolisiâu a darpariaethau'r CDLI oni bai fod ystyriaethau perthnasol yn dangos yn wahanol. Mae gofyn ystyried datblygiadau preswyl o bump neu ragor o unedau o dan Bolisi REC2 y CDLI:

#### **Polisi REC2 Darparu Mannau Agored a Datblygiadau Newydd**

**Bydd yn ofynnol i bob datblygiad preswyl newydd o bump neu ragor o unedau ddarparu man agored ar y safle yn unol â safonau mabwysiedig y Cyngor, sef 2.4ha i bob 1000 o bobl.**

**Pe na bai modd bodloni'r safonau uchod ar y safle, neu os oes digon o ddarpariaeth ar gael eisoes i wasanaethu'r datblygiad, yna byddir yn gofyn am gyfraniadau ariannol oddi ar y safle fel bo'n briodol.**

- 2.2.2 Yn y testun sy'n cyd-fynd â Pholisi REC 2 yn y CDLI dywedir bod enghreifftiau lle na fydd modd cyflawni'r safonau ar safle efallai. Mae hyn yn cynnwys achosion lle byddai safle'n mynd yn gwbl anhyfyw, lle mae tystiolaeth o ddigonedd o ddarpariaeth hygyrch eisoes yn unol â safonau mabwysiedig y Cyngor, neu lle mae'n gwbl anymarferol cyflawni'r safonau oherwydd cyfyngiadau ffisegol/dyluniadol. Dylai'r datblygwr ddarparu datganiad ategol i egluro pam na ellir cadw at y safonau ar y safle a gall yr Awdurdod geisio symiau gohiredig tuag at gynnal a chadw man agored sydd yno'n

barod yn lle hynny. Cyfeirier at 4.3 – Darpariaeth oddi-ar-safle – cyfraniadau gan ddatblygwyr mewn perthynas â symiau gohiriedig.

- 2.2.3 Mae Polisi REC2 y CDLI yn ceisio darparu'r cyfrwng i gyflawni safonau hygyrchedd y Cyngor. Nod safonau Sir Gaerfyrddin yw darparu chwe erw (2.4ha) fesul 1,000 o boblogaeth o 'fannau chwarae'. Dylid nodi bod y CDLI yn ceisio hybu gwelliant o ran hygyrchedd i fannau agored, felly bydd yna gyswilt parhaus â Gwasanaethau Hamdden y Cyngor i ganfod a oes modd maes o law gwireddu'r safon 2.8ha fel y'i nodwyd yn 'Safon Feincnod' FIT. Mae'r safon 2.4ha sydd yn y CDLI ar hyn o bryd yn un sy'n adlewyrchu'r cyferbyniad gwledig/trefol yn y Sir ac yn dibynnu ar dystiolaeth leol benodol (gweler 2.2.11 isod).
- 2.2.4 Yn 'Safon Sir Gaerfyrddin,' mae 'mannau chwarae' yn cynnwys: 1.6ha o gyfleusterau chwaraeon awyr agored a 0.8ha o fannau chwarae i blant. Mae'r 0.8ha yn cynnwys: 0.6 ha o fannau chwarae anffurfiol a 0.2ha o fannau chwarae â chyfarpar. Ceir rhagor o wybodaeth am ddiffiniadau a mathau o fannau agored yn y safon hon yn Adran 3 o'r canllawiau hyn.

### **Polisiau perthnasol eraill y CDLI**

- 2.2.5 Mae Polisi Strategol 16: Cyfleusterau Cymunedol y CDLI yn cydnabod y dylai gwarchod a chadw cyfleusterau cymunedol gael ei ystyried, lle bynnag mae dichon gwneud hynny, ac y dylid mabwysiadu dulliau gweithredu ymatebol er mwyn helpu i'w cadw. Dylid annog y potensial i wneud defnydd deuol o gyfleusterau yn enwedig lle byddai'r gweithgarwch ychwanegol yn help i ehangu'r ddarpariaeth gwasanaethau a chynyddu'r defnydd ohonynt a'u gwneud yn fwy hyfyw. Mae Polisi REC 1: Gwarchod Mannau Agored y CDLI yn darparu ar gyfer diogelu mannau agored sy'n bodoli'n barod ond mae hefyd yn rhoi rhywfaint o hyblygrwydd er cydnabod y newidiadau mewn nodweddion demograffig, cyflwr a bywiogrwydd y ddarpariaeth bresennol ac unrhyw newid mewn patrymau angen. Mae Polisi REC 3: Mannau Agored Newydd Arfaethedig y CDLI yn nodi cynlluniau arfaethedig y Cyngor (a chynlluniau cyrff partner lle mae hynny'n briodol) o ran mannau agored.
- 2.2.6 Mae Polisi GP1: Cynaliadwyedd a Dylunio o Ansawdd Da y CDLI yn darparu'r fframwaith trosfwaol i ddylunio o ansawdd da mewn cynigion datblygu, cadwraeth a gwella yn y Sir. Caiff datblygiadau â dylunio arloesol eu hannog, gan ganiatáu ar gyfer gwylidwriaeth naturiol a gwella diogelwch cymuned neu unigolion drwy hyrwyddo ymdeimlad o berchenogaeth a chyfrifoldeb. Dylai ystyried y ddarpariaeth mannau agored a hamdden fod yn rhan annatod o'r dylunio o'r cychwyn cyntaf. Mae'r Canllawiau Cynllunio Atodol ar Greu Ymdeimlad o Le a Dylunio yn ymhelaethu ar Bolisi GP1 y CDLI ac hefyd yn trafod gweithredu ar sail seilwaith gwyrdd.

- 2.2.7 Mae Polisi GP3: Rhwymedigaethau Cynllunio y CDLI yn uniongyrchol berthnasol i'r canllawiau hyn ac fe'i gwelir isod:

### **Polisi GP3 Rhwymedigaethau Cynllunio**

**Lle bo angen, bydd y Cyngor yn gofyn i ddatblygwyr gytuno i Rhwymedigaethau Cynllunio (Cytundebau Adran 106), neu gyfrannu trwy'r Ardoll Seilwaith Cymunedol i sicrhau cyfraniadau i ariannu gwelliannau i seilwaith, cyfleusterau cymunedol a gwasanaethau eraill i fodloni gofynion sy'n deillio o ddatblygiadau newydd.**

**Lle bo'n berthnasol, gofynnir hefyd am gyfraniadau tuag at gynnal a chadw'r fath ddarpariaeth yn barhaus ac yn y dyfodol naill ai ar ffurf cymorth cychwynol neu am byth.**

**Wrth roi'r polisi hwn ar waith caiff cynlluniau eu hasesu fesul achos.**

- 2.2.8 Gellir ceisio rhwymedigaethau cynllunio i sicrhau amrywiaeth o welliannau, neu ddarpariaeth yn y dyfodol, i ddiwallu gofynion sy'n deillio o ddatblygiad newydd. Mae rhwymedigaethau o'r fath yn amrywio yn eu blaenoriaethau, fodd bynnag, a chânt eu hystyried fesul achos unigol yn unol â natur y cynnig a'r gofynion sy'n deillio ohono. Dylid cyfeirio hefyd at ddarpariaethau'r Canllawiau Cynllunio Atodol ar Rhwymedigaethau Cynllunio sydd wedi'u mabwysiadu. Mae'r polisi'n adlewyrchu Rheoliad 122(2) o Reoliadau Ardoll Seilwaith Cymunedol 2010 sy'n nodi mai dim ond o dan yr amodau canlynol y gall rhwymedigaeth gynllunio fod yn rheswm dros roi caniatâd cynllunio i ddatblygiad:

- (a) os yw'n angenrheidiol i wneud y datblygiad yn dderbyniol mewn termau cynllunio;
  - (b) os oes a wnelo'n uniongyrchol â'r datblygiad; ac
  - (c) fod perthynas deg a rhesymol rhyngddo â'r datblygiad o ran graddfa a math.
- Mae'r Canllawiau Cynllunio Atodol ar Rhwymedigaethau Cynllunio yn ymhelaethu ar Bolisi GP3 y CDLI ar Rhwymedigaethau Cynllunio. Cyfeirir at hynny yn Adran 4 o'r canllawiau hyn.

- 2.2.9 Mae Polisi EQ4: Bioamrywiaeth y CDLI yn ceisio sicrhau bod y cynefinoedd a'r rhywogaethau sydd wedi'u nodi yn y Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol yn cael eu gwella a'u diogelu'n addas rhag datblygu amhriodol, ac na fydd cynigion datblygu yn cael effaith niweidiol arnynt. Mae Polisi EQ5: Coridorau, Rhwydweithiau a Nodweddion o Natur Unigryw y CDLI yn cydnabod y nodweddion hynny sydd, yn rhinwedd eu strwythur a'u lleoliad naill ai fel nodwedd linellol neu ddi-dor neu fel elfen annibynnol, yn gwneud cyfraniad pwysig at briodweddau tirweddol y sir a'i chymeriad unigryw. Gellir ystyried y materion hyn yng nghyd-destun ehangach hygyrchedd i fannau agored. Cyfeirir at y Canllawiau Cynllunio Atodol a baratowyd gan y Cyngor mewn perthynas â bioamrywiaeth.



2.2.10 Mae Polisi EP3: Draenio Cynaliadwy y CDLI yn darparu ar gyfer ystyried effeithiau draenio dŵr wyneb. Mae cyflwyno a defnyddio Systemau Draenio Cynaliadwy (SDCau) yn rhoi cyfle i warchod ansawdd dŵr a lleihau'r effaith ar ecoleg ddyfrol a'i gwella o bosibl. Gall darpariaethau o'r fath hefyd ddarparu cyfleoedd ar gyfer hygyrchedd i fannau agored fel rhan o drefn ddylunio gynhwysol.

### **Asesiad Mannau Gwyrdd Sir Gaerfyrddin**

2.2.11 Mae tystiolaeth unigryw leol yn dylanwadu ar bolisiau'r Cynllun mewn perthynas â manau agored. Mae Asesiad Mannau Gwyrdd Sir Gaerfyrddin yn darparu archwiliad o'r ddarpariaeth yn ôl safonau a chanllawiau cenedlaethol yn ogystal â gwybodaeth leol am ddarpariaeth sy'n arwyddocaol yn lleol, a gafwyd gan y gymuned leol a/neu swyddogion yr Awdurdod Lleol. Mae'r safonau a nodir yn yr asesiad yn adlewyrchu'r safon 2.4ha fesul 1000 o bobl a fabwysiadwyd gan y Cyngor. Mae'r Astudiaeth yn roi darlun gofodol o ble gallai'r ddarpariaeth fod yn brin, neu fod gormod o ddarpariaeth, ar draws y Sir. Dylid nodi yr ymglymer ag adolygiad o'r Asesiad Mannau Gwyrdd fel rhan o'r gofyniad cyffredinol i fonitro ac adolygu'r CDLI. Bydd adolygiad o'r fath yn adeiladu ar y gwaith sydd eisoes wedi'i wneud a bydd yn ceisio adlewyrchu newidiadau yn y ddarpariaeth a hygyrchedd cyfleusterau.

### **Strategaeth Gymunedol Integredig Sir Gaerfyrddin 2011-2016**

2.2.12 Gweledigaeth y Strategaeth yw Sir Gaerfyrddin sy'n galluogi pobl i fyw bywyd iach a bodlon drwy weithio gyda'i gilydd i greu cymunedau cryf, dwyieithog a chynaliadwy. Mae Gweledigaeth y CDLI yn rhoi sylw i'r Strategaeth Gymunedol Integredig ac yn mynegi'i dyheadau ar ffurf ofodol. Mae'r Strategaeth Gymunedol Integredig yn nodi 5 canlyniad, un ohonynt yn dweud bod: "Pobl Sir Gaerfyrddin yn iachach".

### **Gweledigaeth Hamdden Sir Gaerfyrddin 2007-2012**

2.2.13 Mae'r ddogfen strategol hon yn nodi themâu ac amcanion allweddol y Weledigaeth Hamdden. Fe'i hysgrifennwyd i gydnabod bod gan hamdden rôl waelodol i'w chwarae er gwneud ein Sir yn well lle i fyw a gweithio ynddo, ymweld ag ef a'i fwynhau, ac mae 12 nod yn sylfaen iddi.

### **Asesiad Cyfleoedd Chwarae Digonol Sir Gaerfyrddin**

2.2.14 O ganlyniad i'r Ddyletswydd Statudol Cyfleoedd Chwarae sydd wedi ei rhoi ar yr Awdurdod Lleol mae angen i Gyngor Sir Gaerfyrddin asesu a sicrhau cyfleoedd chwarae digonol, a chyhoeddi gwybodaeth gyfoes am y cyfleoedd chwarae. Mae Mater C o'r Cyfarwyddid Statudol yn ffocysu ar asesu'r gwagle sydd ar gael i blant i chwarae o fewn y gymuned, mae'r mater yma yn ffocysu ar wagleoedd agored a gwagleoedd ddi-staff penodol i chwarae. Mae Adran 3 o'r Canllawiau Cynllunio Atodol yn adolygu materion am wagleoedd anffurfiol i blant chwarae.

### **3.0 Diffiniadau a mathau o fannau agored**

#### **3.1 Cyflwyniad**

- 3.1.1 Ystyrir bod polisiâu REC 2 a GP3 yn arbennig o berthnasol o ran y Gofynion Hamdden a Mannau Agored i Ddatblygiadau Newydd yn Sir Gaerfyrddin.
- 3.1.2 Dylid seilio gweithrediad y polisiâu hyn ar asesiad ansoddol o'r angen. Dylid ystyried y sefyllfa law yn llaw ag Is-adran Gwasanaethau Hamdden y Cyngor (gan fanteisio ar brofiad yr Is-adran honno). Mae dogfen Fields in Trust (FIT) ar gynllunio a dylunio, '*Planning and Design for Outdoor Sport and Play*', yn rhoi arweiniad ar faterion fel amseroedd teithio i bob math o ddarpariaeth a manylebau cyfarpar. Mae dystiolaeth leol benodol ar gael hefyd drwy Asesiad Mannau Gwyrdd Sir Gaerfyrddin (gweler paragraff 2.2.11 o'r canllawiau hyn).
- 3.1.3 Dylid ystyried cynigion ar eu haeddiant eu hunain, ar sail eu nodweddion. Nid yw gweithredu gan dybio y bydd yr un atebion yn briodol ym mhobman yn debygol o fod yn briodol o ran mannau agored. Yn amlwg, byddai'n fuddiol pe bai mannau agored ychwanegol yn ychwanegu at/ategu'r ddarpariaeth bresennol yn hytrach na'i dyblygu.

#### **3.2 Meysydd Chwarae Cymru a Safon Sir Gaerfyrddin**

- 3.2.1 Dylid rhoi sylw dyledus i baragraff 2.2.4 o'r canllawiau hyn lle caiff safon Sir Gaerfyrddin ei nodi. Adlewyrchir y safon hon ym Mholisi REC 2 y CDLI.
- 3.2.2 Isod ceir rhai diffiniadau o'r mathau o ddarpariaeth sy'n gallu helpu i gyrraedd y safon a ddymunir.

#### **3.3 Cyfleusterau Chwaraeon Awyr Agored**

- 3.3.1 Yn ôl Safon Sir Gaerfyrddin mae'n ofynnol darparu 1.6ha o gyfleusterau chwaraeon awyr agored fesul 1,000 o boblogaeth. Mae nifer o ofynion allweddol i'w hystyried er sicrhau bod wyneb chwarae o ansawdd da yn cael ei wireddu, yn cynnwys yr angen am systemau draenio a dyfrhau digonol (i gaeau porfa naturiol) yn ogystal â materion eraill fel llifoleuadau a chyfleusterau newid.
- 3.3.2 Mae i wahanol fathau o chwaraeon awyr agored ofynion gwahanol o ran y chwaraewyr a'u cyfarpar. Wrth ddylunio cyfleusterau chwaraeon awyr agored dylid ystyried yr amgylchedd y lleolir y cyfleusterau ynddo. Mae angen ystyried darpariaeth atodol fel cyfleusterau newid, llifoleuadau a meysydd parcio hefyd fel rhan o ddarparu cyfleusterau chwaraeon awyr agored.

#### **3.4 Mannau Chwarae i Blant**

- 3.4.1 Cydnabuwyd ers amser maith fod cyfleoedd ar gyfer chwarae a gweithgareddau yn yr awyr agored yn hanfodol i ddatblygiad iach plant. Mae plant hefyd yn ddefnyddwyr pwysig o ran yr amgylchedd awyr agored – yn enwedig yn agos i'w cartrefi. . Dylai gwagleoedd chwarae dynodedig darparu cyfleoedd atyniadol a heriol, yn enwedig os na all plant chwarae tu allan ei chartrefi oherwydd rhwystrau fel traffic yr heol. Mae FIT yn argymhell hierarchaeth yn y ddarpariaeth, wedi'i seilio ar amser cerdded, ac mae'n

awgrymu ystodau oedran dangosol. Nid yw'r rhain fodd bynnag wedi'u bwriadu i fod yn rhagnodol, felly dylid cysylltu'n gynnar â'r Cyngor am hyn. Mae'r Cyngor yn cydnabod y tri chategori o fannau chwarae a ddiffiniwyd yn 'Safon Feincnod' FIT, sef: Mannau Chwarae Lleol, Mannau Chwarae Lleol â Chyfarpar a Mannau Chwarae Cymdogaeth â Chyfarpar.

### **Mannau Chwarae Lleol, Mannau Chwarae Lleol â Chyfarpar a Mannau Chwarae Cymdogaeth â Chyfarpar**

- 3.4.2 Darn bach o le agored yw **Man Chwarae Lleol** sydd wedi'i ddynodi'n benodol a'i drefnu'n bennaf er mwyn i blant ifanc iawn chwarae'n agos at eu cartrefi h.y. yn ddelfrydol o fewn 1 funud o amser cerdded. Ardal chwarae ar stepen y drws wrth enw arall yw Man Chwarae Lleol. Mae wedi'i fwriadu fel ei bod yn hawdd cadw llygad a goruchwylio'n anffurfiol a'i brif swyddogaeth yw annog chwarae anffurfiol a rhyngweithio cymdeithasol. Nid oes angen cyfarpar chwarae fel y cyfryw, mae'n dibynnu mwy ar nodweddion sy'n dangos bod chwarae'n rhywbeth sy'n cael ei annog.
- 3.4.3 Man agored sydd wedi'i ddynodi'n benodol a nodweddion wedi'u gosod arno, yn cynnwys cyfarpar i blant sy'n dechrau mynd allan a chwarae'n annibynnol yn agos at ble maen nhw'n byw, fel arfer o fewn 5 munud o amser cerdded, yw **Man Chwarae Lleol â Chyfarpar**. Mae nodweddion chwarae yn cynnwys cyfarpar yn rhan annatod ohono ac yn rhan o'r hyn sy'n gwneud mannau o'r fath yn ddeniadol, er ei bod yn bwysig hefyd fod modd defnyddio'r lle ar gyfer gweithgarwch corfforol a gemau. Mae Mannau Chwarae Lleol â Chyfarpar yn gallu bod yn lle ar gyfer gweithgarwch egniol ac afreolus felly mae'n bwysig ystyried y lleoliad yn ofalus. Yn gryno, os yw Man Chwarae Lleol â Chyfarpar wedi'i leoli'n iawn, bod cyfarpar addas ynddo, a'i fod yn cael ei oruchwylio a'i gynnal a'i gadw'n briodol, gall ateb anghenion plant heb achosi niwsans i drigolion eraill.
- 3.4.4 Man agored sydd wedi'i ddynodi'n benodol ac wedi'i drefnu yn bennaf ar gyfer plant hŷn, a chyfarpar wedi'i ddarparu arno ar eu cyfer, yw **Man Chwarae Cymdogaeth â Chyfarpar** ond gyda chyfleoedd chwarae i blant iau hefyd. Wedi'i leoli'n ddelfrydol o fewn 15 munud o gerdded o'r cartref, mae Man Chwarae Cymdogaeth â Chyfarpar yn ddigon mawr i allu darparu cyfleoedd chwarae nad oes modd eu darparu mewn Man Chwarae Lleol na Man Chwarae Lleol â Chyfarpar. Mae cyfarpar chwarae yn fath arbennig o briodol o ddarpariaeth ar gyfer plant iau. Wrth i blant fynd yn hŷn, tuag at gyfnodau olaf oedran ysgol gynradd, maent yn chwilio am sialensiau ac ysgogiadau gwahanol. Maent yn ymwneud mwy â gweithgareddau ar olwynion a gemau pêl anffurfiol, ac weithiau maent yn ymroi iddynt fel chwaraeon ffurfiol. Wrth iddynt symud tuag at eu harddegau, mae pobl ifanc fwyfwy yn ceisio cyfleoedd i gwrdd â ffrindiau y tu allan i'r cartref, gan chwilio am leoedd i gwrdd yn gymdeithasol.
- 3.4.5 Gall y Man Chwarae Cymdogaeth â Chyfarpar ddarparu mwy o amrywiaeth o gyfleoedd ar gyfer chwarae gweithredol a goddefol. Gall ddarparu cyfarpar chwarae, ac ardal wyneb caled ar gyfer gemau pêl neu weithgareddau ar olwynion fel troed-rolio neu feicio. Gall ddarparu cyfleusterau eraill fel ramp ar gyfer sglefrfyrdio, wal adlamu, a lloches ar gyfer cwrdd a chymdeithasu. Mae'r cyfleusterau wedi'u cydgyssylltu ar un safle oherwydd mae plant o wahanol oedran a gallu yn hoffi cymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau, ac felly hefyd eu brodyr a'u chwiorydd. Dylid rhoi

ystyriaeth fanwl i leoliad y gwahanol gyfleusterau sy'n cael eu darparu a'r rhyngweithio rhyngddynt a hynny ar y safle ac mewn perthynas â'r amgylchedd lleol. Mae'n hanfodol cydnabod rôl allweddol ymgynghori er mwyn sicrhau dyluniad llwyddiannus a chael y gymuned i dderbyn y ddarpariaeth.

### **Cyfleusterau Chwarae a Hamdden Eraill Awyr Agored i Blant a Phobl Ifanc**

- 3.4.6 Mae mannau chwarae achlysurol / anffurfiol yn cael eu cynnwys yn y gofyniad am fannau chwarae i blant. Gellir eu diffinio fel mannau agored o faint defnyddiol, mewn lleoliad diogel, sy'n darparu cyfleoedd ar gyfer gweithgareddau chwarae anffurfiol. Gallai man agored glaswelltog mewn ardal tai, sydd â chyfrwng gwahanu digonol, gydymffurfio â'r diffiniad. Mae'r Awdurdod Lleol yn gefnogol o'r Ddyletswydd Statudol sydd wedi ei rhoi. Mae'r Cyfarwyddid Statudol yn darparu canllawiau statudol ar sut dylai'r Awdurdod Lleol asesu a sicrhau cyfleoedd chwarae digonol i blant.
- 3.4.7 Wrth i blant a phobl ifanc ddod yn fwy annibynnol, byddant yn chwilio am brofiadau mwy heriol, gwahanol fathau o ddarpariaeth seiliedig ar weithgareddau a chyfleoedd ac amgylcheddau i gwrdd â'i gilydd. Mae'r Cyngor felly yn cydnabod poblogrwydd a chyfraniad posibl cyfleusterau nad ydynt yn Fannau Chwarae Lleol, Mannau Chwarae Lleol â Chyfarpar nac yn Fannau Chwarae Cymdogaeth â Chyfarpar; yn cynnwys mannau cwrdd a llochesi ieuencid o fewn mannau agored lleol, mannau chwarae amldeffnydd â llifoleuadau, parciau sgleffryddio a thraciau BMX.

### **Canllawiau pellach ar nodweddion a manylebau cyfarpar**

- 3.4.8 Ceir arweiniad manwl ar y mathau o ddarpariaeth sy'n cael eu trafod yn y canllawiau hyn yn nogfen Fields in Trust (FIT) '*Planning and Design for Outdoor Sport and Play*'. Mae Wicksteed wedi cynhyrchu taflen hefyd ar ddarparu meysydd chwarae ac Adran 106 y Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref.

### **Mannau Amwynder: Gweithredu o Blaid Seilwaith Gwyrdd**

- 3.4.9 Yn Atodiad B TAN 16 Polisi Cynllunio Cymru ceir teipoleg mannau agored, yn cynnwys mannau Amwynder Cymdogaeth a allai fod yn glustog ddefnyddiol rhwng mannau chwarae cymdogaeth ac eiddo cyfagos. Mae mannau Amwynder o Bwys yn golygu parciau trefol, parciau gwledig, gerddi ffurfiol, coetir trefol, coedwigoedd trefol, prysgwydd, glaswelltiroedd, tir mynediad agored, gwlyptiroedd, tir arfordirol, glannau afonydd, llwybrau beicio, hawliau tramwy cyhoeddus a llwybrau troed a marchogaeth eraill, promenadau a sgwariau dinesig a marchnad. Dylai mannau agored amwynder o bwys gynnig mynediad agored i'r cyhoedd. Gallai mannau o'r fath fod yn bwysig hefyd i ddatblygiadau dibreswyl, e.e. Parciau Busnes. Gellir ystyried materion o'r fath wrth roi amryw o bolisiau'r CDLI ar waith; yn cynnwys GP1, EQ4, EQ5 ac EP3. Dylid cyfeirio at y Canllawiau Cynllunio Atodol sydd wedi'u paratoi ar Greu Ymdeimlad o Le a Dylunio a Bioamrywiaeth.

## 4.0 Y Dull Datblygu a'r Rhwymedigaethau Cynllunio

### 4.1 Ffynonellau Canllawiau ar Ddylunio

- 4.1.1 Mae tipyn o ganllawiau ar gael yn y polisi cynllunio cenedlaethol. Cyfeirir yn arbennig at baragraff 4.2 TAN 16, lle trafodir pwysigrwydd ystyried materion dylunio yn gynnar wrth lunio cynnig datblygu. Gall dylunio da helpu i greu mannau deniadol, saff, diogel, hygyrch, hwylus i'r defnyddiwr, sy'n lleihau'r cyfleoedd ar gyfer troseddu ac anhrefn, yn ffafriol i ddewisiadau teithio egniol a mwy o fioamrywiaeth, ac ar yr un pryd yn hwyluso gwaith rheoli a chynnal a chadw yn y tymor hwy.
- 4.1.2 Polisi GP1: Cynaliadwyedd a Dylunio o Ansawdd Da y CDLI sy'n darparu'r fframwaith troswaol i ddylunio o ansawdd da mewn cynigion datblygu, cadwraeth a gwella yn y Sir. Dylid ystyried hygyrchedd digonol at ddarpariaeth mannau agored ar gamau cyntaf y gwaith dylunio fel ei fod yn dod yn rhan annatod o'r cynllun (yn ddelfrydol ar y cam cynllunio amlinellol os yw'n briodol). Bydd ystyriaeth o'r fath yn golygu bod modd ymgorffori pethau fel mynediad ar gyfer pobl anabl, beicio/cerdded a mannau gwyrdd llinol yn y broses ddylunio o'r cychwyn. Mae'r Canllawiau Cynllunio Atodol ar Greu Ymdeimlad o Le a Dylunio yn manylu ymhellach drwy ymhelaethu ar ddarpariaeth Polisi GP1 y CDLI. Cyfeirir at Adran 2 o'r canllawiau hyn lle caiff polisïau perthnasol y CDLI a'r canllawiau cynllunio atodol cysylltiol eu nodi'n fanwl.
- 4.1.3 Dylid ystyried hygyrchedd digonol at ddarpariaeth mannau agored ar gamau cyntaf y gwaith dylunio fel ei fod yn dod yn rhan annatod o'r cynllun (yn ddelfrydol ar y cam cynllunio amlinellol os yw'n briodol). Bydd ystyriaeth o'r fath yn golygu bod modd ymgorffori pethau fel mynediad ar gyfer pobl anabl, beicio/cerdded a mannau gwyrdd llinol yn y broses ddylunio o'r cychwyn.
- 4.1.4 Dylid rhoi sylw dyledus i ddarparu mannau agored sy'n rhan annatod o ddyluniad a chynllun y safle. Dylai fod modd cyrchu'n hawdd at fannau o'r fath ar hyd llwybrau cerdded diogel o'r holl ardaloedd y mae'r mannau i fod i'w gwasanaethu a dylent fod â ffrynt cydnabyddedig i'r ffordd gyda 'rhwystrau' priodol. Dylid ymgorffori gwylidwriaeth oddefol i unrhyw ddyluniad a rhaid i'r holl gyfarpar chwarae a'r gwaith o'i osod, yn cynnwys wynebau clustogi gwrthdrawiad, gydymffurfio â'r safon fabwysiedig ddiweddaraf.
- 4.1.5 Mae pennod 5 dogfen Fields in Trust: *Planning and Design for Outdoor Sports and Play* (2008) yn rhoi canllawiau manwl ar egwyddorion cynllunio a dylunio mewn perthynas â mannau agored. Trafodir cyfres o egwyddorion allweddol a chysyniadau ar gyfer cynllunio mannau agored lleol a chyfleusterau awyr agored ar gyfer chwaraeon a chwarae. Er mai cyfeirio at y cyd-destun polisi yn Lloegr y mae'r canllawiau, mae'n debygol y byddent o werth yn cefnogi a dylanwadu ar y gwaith o ddatblygu cynigion o ansawdd da yn Sir Gaerfyrddin.
- 4.1.6 Mae gan Play England nifer o adnoddau i helpu gyda'r gwaith o ddylunio mannau chwarae a gallai'r rhain hefyd fod o gymorth wrth lunio cynigion ar gyfer Sir Gaerfyrddin. Mae'r rhain yn cynnwys Deg Egwyddor y dylid eu hystyried wrth ddatblygu a dylunio mannau agored ac maent i'w gweld yn Atodiad 1 at y canllawiau hyn.



- 4.1.7 Mae CABE Space (rhan o'r Comisiwn ar Bensaernïaeth a'r Amgylchedd Adeiledig) yn darparu cyngor ac arweiniad ar fannau gwyrdd trefol yn Lloegr. Mae'i ymchwil a'i gyngor hefyd yn berthnasol i Gymru. Mae Comisiwn Dylunio Cymru hefyd yn darparu cyngor ynghylch cynlluniau amrywiol lle gallai mannau agored a hamdden fod yn elfennau. Mae'r Comisiwn yn arbennig o awyddus i hyrwyddo safonau dylunio uchel, sy'n annog cynhwysiant cymdeithasol a datblygu cynaliadwy.

## 4.2 Darpariaeth ar-safle

- 4.2.1 Byddir yn edrych am lefel a safon foddhaol o fannau agored ar ddatblygiadau tai newydd lle credir y byddai datblygiad tai newydd yn rhoi pwysau ychwanegol ar y cyfleusterau presennol ac nad oes lefel ac ansawdd addas o ddarpariaeth hygyrch yn bodoli a allai ymdopi â'r pwysau ychwanegol. Dylai toriad gyfrannol o ddarpariaethau mannau agored fod yn unol â'r safonau canlynol:

Lle hamdden awyr agored – 1.6ha fesul 1,000 o bobl = 16m<sup>2</sup> fesul person

Mannau chwarae i blant – 0.8ha fesul 1,000 o bobl = 8m<sup>2</sup> fesul person

Mae'r 0.8ha yn cynnwys: 0.6ha o fannau chwarae anffurfiol a 0.2ha o fannau chwarae â chyfarpar. Dylai cyfrannau'r ddarpariaeth mannau agored fod yn unol â'r safon hon.

- 4.2.2 Ar sail yr uchod, ac o ragdybio dwysedd cyfartalog o 25 annedd yr hectar, a maint aelwyd cyfartalog o 2.284 person yr annedd h.y. 57.1 person yr hectar, neu 17.5ha o dai fesul 1000 o bobl, o rannu'r safon 2.4ha â'r 17.5ha, ceir ffigur o 13.7% o safle datblygu y mae angen ei neilltuo ar gyfer darpariaeth hamdden a/neu chwarae.
- 4.2.3 Rhaid i'r ddarpariaeth mannau chwarae agored ar ddatblygiadau tai newydd adlewyrchu gofynion deiliaid y dyfodol a nodweddion penodol y safle. Pennir union ffurf a math y mannau agored drwy roi sylw i natur a maint y datblygiad a pha gyfleusterau sydd ar gael yn yr ardal leol. Mewn rhai amgylchiadau, gallai fod yn fwy priodol gwyro oddi wrth y ddarpariaeth arferol o fannau agored at ddibenion hamdden. Bydd y Cyngor yn hyblyg o ran lefel a math y ddarpariaeth mannau agored a geisir ar ddatblygiad, i adlewyrchu nodweddion poblogaeth tebygol y datblygiad.
- 4.2.4 Pan fydd y Cyngor yn nodi bod datblygwyr wedi isrannu safleoedd er mwyn osgoi ddarparu mannau agored, bydd cyfanswm y ddarpariaeth o dai yn cael ei gyfrifo a bydd y polisi man agored yn cael ei gwethredu yn unol â hynny. Bydd y dull hwn hefyd yn berthnasol pan fydd ceisiadau cynllunio yn cael eu gwasgaru dros gyfnod o amser.

## 4.3 Darpariaeth oddi-ar-safle – Cyfraniadau gan Ddatblygwyr

- 4.3.1 Lle bynnag y mae hynny'n bosibl, dylai'r mannau agored cyhoeddus gael eu darparu o fewn terfynau'r safle fel rhan annatod o'r datblygiad. Fodd bynnag, gallai fod amgylchiadau lle nad yw'n bosibl neu'n briodol darparu'r mannau agored gofynnol ar y safle datblygu. Gallai hyn fod am nifer o resymau, er enghraifft, fod y safle'n rhy fach neu'n amhriodol i ddarparu rhai categorïau o fannau agored. Yn yr un modd, gallai fod amgylchiadau lle mae lefel addas o ddarpariaeth ar gael yn agos at y safle a fyddai, gyda rhai gwelliannau, yn gallu ymdopi â'r pwysau ychwanegol a ddeuai yn sgil datblygiad newydd. Dylid cyfeirio at baragraff 2.2.2 o'r canllawiau hyn.

- 4.3.2 Mewn achosion felly, bydd y Cyngor yn ystyried derbyn taliad gohiriedig yn lle darpariaeth ffisegol. O dan y trefniant hwn bydd gofyn i ddatblygwyr wneud cyfraniadau ariannol tuag at ddarparu manau agored cyhoeddus oddi-ar-y-safle neu tuag at wella cyfleusterau hamdden awyr agored sy'n bodoli'n barod. Bydd gofyn bod cysylltiad uniongyrchol rhwng unrhyw welliannau i gyfleusterau presennol a maint y datblygiad a'u bod o fudd i ddeiliaid y datblygiad preswyl newydd.
- 4.3.3 Caiff y cyfraniad ei gyfrifo yn unol â chostau cyfredol fesul metr sgwâr darparu'r gwahanol gategoriâu o fannau agored, fel sydd wedi'i amlinellu yn Atodiad 2. Caiff y ffigurau hyn eu hadolygu'n flynyddol i adlewyrchu newidiadau mewn amgylchiadau o ran costau. Gallai union lefel y cyfraniadau gan ddatblygwyr amrywio o'r ffigurau sydd wedi'u nodi i adlewyrchu nodweddion a galwadau safle unigol.

#### **4.4 Rheoli a Chynnal a Chadw**

- 4.4.1 Lle mae darpariaeth manau agored yn rhan o gais cynllunio, dylai'r ymgeisydd ddweud sut y mae'r gwaith o reoli a chynnal a chadw unrhyw fannau agored cyhoeddus i'r dyfodol wedi cael ei gymryd i ystyriaeth. Lle gellir cyfiawnhau hynny, bydd yr Awdurdod yn defnyddio Cytundebau Adran 106 i sicrhau cyfraniadau at gynnal a chadw cyfleusterau a manau agored deniadol a diogel.
- 4.4.2 Lle caiff cyfleuster man agored ar-safle ei ddarparu, bydd angen ymdrin hefyd â'i gynnal a'i gadw i'r dyfodol. Yr opsiwn sy'n cael ei ffafrio gan yr Awdurdod yw bod yr ymgeisydd yn rhoi cynllun rheoli preifat ar waith er mwyn cynnal a chadw'r ddarpariaeth ar-y-safle i'r dyfodol. Bydd angen i'r cynllun rheoli ddangos mewn modd sy'n bodloni'r Awdurdod Lleol fod trefniadau addas wedi'u gwneud i gynnal a chadw'r safle yn y tymor hir a bydd angen felly iddo ddangos pwy fydd yn gyfrifol am reoli ac ariannu'r cynnal a chadw ar y manau agored, er enghraifft cwmni rheoli ag adnoddau digonol.
- 4.4.3 Gallai fod amgylchiadau lle nad yw'n ddichonadwy neu'n ymarferol i'r datblygwyr neu gorff rheoli penodedig arall ymgymryd â'r gwaith parhaus o reoli'r safle. O dan amgylchiadau felly, bydd y Cyngor yn barod i ystyried mabwysiadu'r cyfleuster a'i gynnal yn briodol fel man agored cyhoeddus. Fodd bynnag, bydd mabwysiadu tir bob amser yn amodol ar i'r datblygwyr dalu swm gohiriedig i dalu'r costau cynnal a chadw i'r dyfodol. Caiff y ffigur hwn ei gyfrifo gan ddefnyddio'r costau cynnal a chadw a amlinellwyd yn Atodiad 2 at y canllawiau hyn, sy'n cwmpasu ffigur cynnal a chadw 10 - 20 mlynedd. Lle mae datblygwyr yn gwneud cyfraniad ariannol yn lle cyfleusterau ar-safle, bydd swm gohiriedig am gostau cynnal a chadw i'r dyfodol hefyd yn cael ei geisio.
- 4.4.4 Bydd caniatâd cynllunio i ddatblygiadau yn amodol ar gytundeb cyfreithiol a fydd yn cynnwys y manylion ynglŷn â'r ddarpariaeth manau agored ar-y-safle a / neu oddi-ar-y-safle, cynnal a chadw parhaus a mabwysiadu os yw hynny'n briodol. Mae pob Cytundeb Adran 106 ynghlwm wrth y tir felly bydd olynwyr yn y teitl yn cael eu rhwymo gan ei rwymedigaethau.

## **5.0 Cysylltiadau Allweddol**

### **5.1 Polisi Cynllunio, Cyngor Sir Gaerfyrddin:**

5.4.1 Ffôn: 01267 228818, E bost: blaen.gynllunio@sirgar.gov.uk

### **5.2 Timau Ardal Rheoli Datblygu (ceisiadau cynllunio), Cyngor Sir Gaerfyrddin:**

5.2.1 Llanelli: Ffôn: 01554 742337 E bost: cynllunio@sirgar.gov.uk

5.2.2 Caerfyrddin: Ffôn: 01267 242450 E bost: cynllunio@sirgar.gov.uk

5.2.3 Llandeilo: Ffôn: 01558 825275 E bost: cynllunio@sirgar.gov.uk

Atodiad 1**Y Deg Egwyddor ar gyfer Cynllunio Mannau Chwarae**

Mae man chwarae llwyddiannus yn fan ynddo'i hun, wedi'i gynllunio'n arbennig ar gyfer ei leoliad, a'i ddarparu ar gyfer yr ardal honno. Nid yw'n fater o 'fod yn addas i bawb', dylai pob man fod yn bwrpasol i bob datblygiad.

Mae gan Play England amryw o adnoddau i helpu i gynllunio manau chwarae. Gall yr egwyddorion hyn fod yr un mor gymwys yng Nghymru. Maen nhw wedi llunio rhestr o'r Deg Egwyddor y dylid eu hystyried wrth ddatblygu a chynllunio manau agored, sef:

1. **Dychmygu man chwarae wedi'i gynllunio i wella ei leoliad:** Mae manau chwarae llwyddiannus wedi'u cynllunio i weddu i'w hamgylchiadau a gwella'r amgylchedd lleol, gan gyflenwi manau deniadol a gwella amgylcheddau o safon is.
2. **Dychmygu man chwarae yn y lle gorau posibl:** Mae manau chwarae llwyddiannus wedi'u lleoli'n ofalus i 'fod lle y byddai plant yn chwarae yn naturiol.' Er bod plant yn aml yn mwynhau teimlo fel pe baent i ffwrdd o oruchwyliaeth oedolion, mae'n bwysig cynnal cydbwysedd rhwng cael lle diarffordd pleserus a rhywle anghysbell a chuddiedig.
3. **Dychmygu man chwarae sy'n agos i natur:** Gall twmpathau glaswelltog, plannu, boncyffion a chlogfeini i gyd helpu i wneud lleoliad mwy deniadol, addas ar gyfer chwarae i roi offer ynddo, a gall plannu hefyd helpu i ddenu adar a bywyd gwylt er mwyn dod â'r man chwarae yn fyw yn llythrennol.
4. **Dychmygu man chwarae lle y gall plant chwarae mewn ffyrdd gwahanol:** Gall manau chwarae llwyddiannus gael eu defnyddio mewn ffyrdd gwahanol gan blant a phobl ifanc o oedran a diddordebau gwahanol; gallant fod yn fannau cymdeithasol pwysig i rieni a gofalwyr, yn ogystal â'r plant.
5. **Dychmygu man chwarae lle y gall plant anabl a heb fod yn anabl chwarae gyda'i gilydd:** Gall plant gyda galluoedd gwahanol chwarae gyda'i gilydd mewn manau chwarae wedi'u cynllunio'n dda, a dylai rhieni a gofalwyr sydd yn anabl eu hunain allu cael mynediad i fannau chwarae os ydynt yn dod gyda'u plant.
6. **Dychmygu man chwarae y mae'r gymuned yn ei garu:** Bydd proses llwyddiannus o ymgysylltu â'r gymuned yn helpu i greu safle y mae'r gymuned yn ei hoffi ac sy'n bodloni ei hanghenion.
7. **Dychmygu man chwarae lle y gall plant o bob oedran chwarae gyda'i gilydd:** Mae manau chwarae da yn osgoi gwahanu plant ar sail oedran neu allu, ac wedi'u cynllunio er mwyn i'r offer a'r nodweddion gael eu defnyddio gan ystod eang o blant, a hyd yn oed ganiatáu gwahanol batrymau o ddefnydd yn ystod y dydd neu'r wythnos.
8. **Dychmygu man chwarae lle y gall plant ymestyn a herio eu hunain ym mhob ffordd:** Mae angen cyfleoedd ar blant a phobl ifanc i brofi her a chyffro yn eu chwarae.
9. **Dychmygu man chwarae sy'n cael ei gynnal a'i gadw ar gyfer gwerth chwarae a chynaliadwyedd amgylcheddol:** Mae manau chwarae da wedi'u cynllunio a'u hadeiladu gan ddefnyddio defnyddiau cynaliadwy a chânt eu cynnal a'u cadw i annog profiadau chwarae gwahanol.
10. **Dychmygu man chwarae sy'n esblygu wrth i'r plant dyfu:** Mae adeiladu ychydig o 'ofod llac' yn y cynllun - gofod heb unrhyw swyddogaeth wedi'i rhagddiffinio - yn gallu helpu i gyflwyno potensial ar gyfer newid ac esblygu.

*(Design for play: a guide to creating successful play spaces, Play England, 2008)*

Atodiad 2**Atodlen Costau Adeiladu a Chynnal a Chadw**

Mae cost darpariaeth hamdden a / neu chwarae yn cael ei gwahanu'n 2 elfen fel arfer: 1 Costau adeiladu; a, 2 Costau cynnal a chadw.

Costau adeiladu

Seilir cyfrifiadau'r costau adeiladu ar y costau safonol isod, a gellir eu ffactorio i fyny neu i lawr yn ôl maint y datblygiad:

400m2 lle chwarae â chyfarpar (hanner yn Fannau Chwarae Cymdogaeth â Chyfarpar)	£49,135
600m2 man agored anffurfiol achlysurol	£5,400
1400m2 cae chwarae	£38,000
2,300m2 CYFANSWM	£92,535

I ddatblygiadau mwy, byddai angen inni ystyried darparu mannau chwarae amldeffnydd a disodli'r mannau chwarae lleol â chyfarpar â mannau chwarae safonol (mannau chwarae cymdogaeth â chyfarpar).

Man chwarae amldeffnydd £75k

940m2 man chwarae cymdogaeth â chyfarpar £98k

Yn dibynnu ar faint y datblygiad, gellir addasu'r gost lawn fesul annedd gan ddefnyddio'r uchod fel man cychwyn.

Costau cynnal a chadw

	Cost / m2	Arwynebedd m2	Cost flynyddol Blwyddyn 1	Cost 10 mlynedd ar atgyweirio a chynnal a chadw	Cost 20 mlynedd ar atgyweirio a chynnal a chadw
Man chwarae â chyfarpar	£11.25	400	£4,500	£45,000	£90,000
Chwarae achlysurol / anffurfiol	£0.94	600	£564	£5,640	£11,280
Cae chwarae	£0.94	1400	£1,316	£13,160	£26,320
Cyfanswm		2,400	£6,380	£63,000	£127,600

Byddai angen cyfrifo costau cynnal a chadw darpariaeth hamdden arall ar sail pob cyfleuster unigol.